OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 910

# Rheoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014

**Diwygio Ffurflenni Rhagnodedig Cymraeg**

**2.** Yn yr Atodlen i Reoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) 1997 (Ffurflenni a ragnodir at ddibenion Rhan I o Ddeddf Tai 1988)(**1**)—

(a) ym mharagraff 2 o destun Cymraeg y Canllawiau i Ffurflen 4D (hysbysiad landlord yn cynnig rhent newydd ar gyfer tenantiaeth gyfnodol sicr mangreoedd yng Nghymru)(**2**) hepgorer o "Dylech hefyd hysbysu" i "yn hawlio budd-dal" ac yn ei le rhodder—

> "Mae'n ofynnol i chi hefyd hysbysu'r swyddfa Budd-daliadau Tai yn eich awdurdod lleol os ydych yn hawlio Budd-dal neu'r Adran Gwaith a Phensiynau os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol. Mae gwefan Gov.UK yn rhoi cyngor pellach: https://www.gov.uk"; a

(b) ym mharagraff 2 o destun Cymraeg y Canllawiau i Ffurflen 4E (hysbysiad landlord neu drwyddedwr yn cynnig rhent neu ffi'r drwydded newydd ar gyfer meddiannaeth amaethyddol sicr mangreoedd yng Nghymru)(**3**) hepgorer o "Dylech hefyd hysbysu" i "yn hawlio budd-dal" ac yn ei le rhodder—

> "Mae'n ofynnol i chi hefyd hysbysu'r swyddfa Budd-daliadau Tai yn eich awdurdod lleol os ydych yn hawlio Budd-dal neu'r Adran Gwaith a Phensiynau os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol. Mae gwefan Gov.UK yn rhoi cyngor pellach: https://www.gov.uk".

(**1**) O.S. 1997/194.
(**2**) Mewnosodwyd ffurflen 4D gan O.S. 2003/307 (Cy. 46)
(**3**) Mewnosodwyd ffurflen 4E gan O.S. 2003/307 (Cy. 46).